

Preifat a chyfrinachol (Pennaeth cyd-ysgrifenyddiaeth – CPG)

## Ffurflen Gais – Pennaeth Cyd-ysgrifenyddiaeth Cyngor Partneriaeth y Gweithlu

---

Dychweler erbyn –

Preifat a chyfrinachol (Pennaeth cyd-ysgrifenyddiaeth – CPG)

Martin Mansfield

Ysgrifennydd Cyffredinol

TUC Cymru

1, Heol yr Egwys Gadeiriol, Caerdydd, CF11 9SD

---

Enw:

Y swydd yr ymgeisir amdani:

Cyfeirnod swydd:

---

### Manylion Cyswllt

Cyfeiriad e-bost personol:

Cyfeiriad e-bost gwaith:

Rhif ffôn cartref:

Rhif ffôn symudol:

Dull cyswllt dewisol:

Nodwch isod unrhyw ddyddiadau nad ydych chi ar gael i fynychu cyfweiliad yn y mis ar ôl y dyddiad cau ar gyfer y swydd:

---

## Hanes Gyrfa

Amgawch CV cryno wrth ddychwelyd y ffurflen gais hon.

### Gallu Ieithyddol

Nodwch eich lefel gallu **ysgrifenedig** yn Gymraeg a Saesneg.

Saesneg:

Cymraeg:

Nodwch eich lefel gallu **darllen** yn Gymraeg a Saesneg.

Saesneg:

Cymraeg:

Nodwch eich lefel gallu **llafar** yn Gymraeg a Saesneg.

Saesneg:

Cymraeg:

Iaith Ddewisol:

Byddwn yn ceisio sicrhau bod eich asesiad yn yr iaith o'ch dewis.

Nodwch, efallai y bydd ceisiadau wedi'u cwblhau yn y Gymraeg yn cael eu hanfon i gael eu cyfieithu i'r Saesneg.

---

## Hyfforddiant

Rhowch ragor o wybodaeth i ni am unrhyw hyfforddiant y credwch allai fod yn berthnasol i'r cais hwn, gan gynnwys aelodaeth o sefydliadau proffesiynol, gwaith gwirfoddol ac ati.

---

*Cyn cwblhau'r adran hon darllenwch y canllawiau i ymgeiswyr ar ddiwedd y ffurflen hon.*

## Adran 1: Meini Prawf Penodol i'r Swydd

Gofalwch eich bod yn rhoi sylw digonol i bob un o'r meini prawf hanfodol yn eich ateb, gan ddefnyddio eich profiad, gwybodaeth a chyflawniadau oherwydd byddwch yn cael eich asesu ar sail y dystiolaeth a roddir ar gyfer pob maen prawf.

### Disgwylir i chi gadw'ch dystiolaeth i uchafswm o 300 gair

Ni fyddwn yn ystyried unrhyw dystiolaeth dros 300 **gair**.

*Cofiwch gynnwys nifer geiriau*

## Maen Prawf Penodol i'r Swydd 1:

Tystiolaeth o arwain a grymuso tîm, i sicrhau ansawdd uchel a chysondeb, mewn amgylchedd cymhleth sy'n gallu bod yn heriol weithiau.

## Maen Prawf Penodol i'r Swydd 2:

Tystiolaeth o hyder a gwydnwch wrth reoli rhaglenni gwaith cymhleth a chyflawni o fewn amserlenni y cytunir arnynt, gyda phrofiad a dealltwriaeth o amgylchedd y gwasanaeth cyhoeddus.

## Maen Penodol i'r Swydd 3:

Tystiolaeth o allu i gydweithio â rhanddeiliaid amrywiol i ystyried effaith ddilynol rhoi newid ar waith.

## Adran 2: Meini Prawf Dymunol

Nid yw'r priodweddau canlynol yn hanfodol ar gyfer y swydd benodol hon ond nodwyd eu bod yn ddymunol. Bydd y rhain ond yn cael eu hystyried os oes dau ymgeisydd (neu fwy) yn cyrraedd yr un sgôr yn y cyfnod ymgeisio neu gyfweld.

### Disgwylir i chi gadw'ch dystiolaeth i uchafswm o 300 gair

Ni fyddwn yn ystyried unrhyw dystiolaeth dros 300 gair.

*Cofiwch gynnwys nifer geiriau*

## Maen Prawf Dymunol 1:

Mae sgiliau Cymraeg yn Ddymunol

## Adran 3: Cyflawniadau yn erbyn Cymhwyseddau Allweddol

Darparwch dystiolaeth yn erbyn pob un o'r cymhwyseddau allweddol isod.

**Disgwylir i chi gadw'ch dystiolaeth i tua 300 gair y cymhwysedd.**

Ni fyddwn yn ystyried unrhyw dystiolaeth dros 300 **gair**.

*Cofiwch gynnwys nifer geiriau*

Cymhwysedd Allweddol 1:

Arwain a Chyfathrebu – Egluro strategaethau a chynlluniau, cyfathrebu diben a chyfeiriad yn glir a gyda brwdfrydedd

---

Cymhwysedd Allweddol 2:

Newid a Gwella - Casglu, defnyddio a rhannu barn a safbwyntiau cwsmeriaid yn effeithiol gan randdeiliaid amrywiol er mwyn sicrhau gwell polisi a darpariaeth

---

Cymhwysedd Allweddol 3:

Rheoli gwasanaeth o ansawdd - Sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol, rheoleiddiol a diogelwch wrth ddarparu gwasanaethau a chynnwys amrywiaeth ac ystyriaethau cydraddoldeb ymhob cynllun

---

Cymhwysedd Allweddol 4:

Cyflawni'n Ddi-oed – Cynnal perfformiad effeithiol dan amgylchiadau anodd o bryd i'w gilydd, gan annog eraill i wneud yr un fath

---

## Datganiad

Bydd yr holl ohebiaeth yn cael ei hanfon yn **electronig** os nad ydych chi'n nodi'n wahanol

Byddai'n well gen i dderbyn gohebiaeth drwy'r post mewnol yn lle'n electronig.

Ym mha iaith hoffech chi dderbyn **gohebiaeth** am eich cais?

Ym mha iaith yr hoffech chi gael eich **asesu** os ydych chi'n llwyddiannus?

Nodwch unrhyw ddyddiadau na fyddech chi ar gael ar gyfer cyfweiliad:

---

Nodwch na fydd aelodau'r panel yn gweld gweddill y ffurflen hon

## Datganiad y Cynllun Gwarantu Cyfweiliad ar gyfer Pobl Anabl



Nodwch na fydd aelodau'r panel yn gweld y rhan hon o'r ffurflen - bydd ar wahân ac yn cael ei monitro gan y Tîm Recriwtio a fydd yn sicrhau y bydd unrhyw ymgeiswyr a bennir yn gymwys yn y cyfnod sifftio yn cael eu cyfweld.

Rydym yn gweithredu o dan y cynllun Hyderus o ran Anabledd (Disability Confident Employer) ac yn croesawu ceisiadau gan bobl anabl. Mae'r cynllun hwn yn rhoi sicrwydd o gyfweiliad i bobl anabl<sup>1</sup> os ydynt yn bodloni'r gofynion hanfodol ar gyfer y swydd. Os dangosir tystiolaeth 'dderbyniol' o'r sgiliau a'r priodweddau ar gyfer y swydd yr ymgeisiwyd amdani byddwn yn eich gwahodd am gyfweiliad yn awtomatig. Mae tystiolaeth 'dderbyniol' yn cyfeirio at y meini prawf gofynnol i wneud y swydd.

---

Ydych chi'n credu bod gennych chi anabledd ac a ydych am gael eich ystyried dan y trefniant hwn?

- Ydw
- Nac ydw

Os ydych chi wedi dewis 'ydw', er mwyn i bob ymgeisydd gystadlu'n gyfartal yn ystod y broses recriwtio byddem yn ddiolchgar pe baech yn **dweud wrthym, ar ôl i chi**

---

<sup>1</sup> Bydd unigolyn yn cael ei gwmpasu gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 os oes ganddo nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith negyddol 'sylweddol' neu 'hirdymor' ar ei allu i wneud gweithgareddau o ddydd i ddydd arferol.

## dderbyn gwahoddiad i gyfweiliad, am unrhyw ofynion neu addasiadau rydych chi am iddynt gael eu gwneud, cyn neu gydol y broses ddeddfol.

Os ydych chi'n ymgeisydd llwyddiannus, byddwch yn cael cyfle i drafod unrhyw addasiadau rhesymol gyda'n cynghorydd iechyd galwedigaethol, byddwch hefyd yn cael asesiad cyfarpar sgrin arddangos llawn. Bydd darparu'r wybodaeth hon yn ein helpu i ystyried ffyrdd y gallwn ni ddiwallu eich anghenion yn rhesymol. Rydym wedi ymrwymo i wneud addasiadau rhesymol fel y gall ein gweithwyr sydd ag anableddau gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol.

## Cyfle Cyfartal

---

### Pam rydym ni'n casglu eich gwybodaeth?

Bydd y wybodaeth hon ond yn cael ei defnyddio gan Adnoddau Dynol i ddarparu ystadegau anhysbys at ddibenion adrodd ac i'n helpu i nodi unrhyw batrymau, yn unol â'n dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r monitro hwn yn ein helpu hefyd i sicrhau bod ein polisiau a'n gweithdrefnau yn gywir, cynhwysol ac effeithiol.

### Sut byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth

Bydd y wybodaeth y byddwch yn ei rhoi i ni ar y ffurflen hon yn cael ei thrin yn gyfrinachol ac yn unol â Deddf Diogelu Data 1998. Bydd y wybodaeth y byddwch yn ei darparu yn cael ei chadw ar ein cronfa ddata monitro tan ddiwedd y flwyddyn ariannol. Ni fydd y wybodaeth hon yn cael ei rhannu gyda'ch rheolwr llinell ac ni fydd yn cael ei defnyddio at unrhyw ddiben arall nac yn cael ei datgelu i unrhyw sefydliadau eraill, ac eithrio fel rhan o'n hymrwymiaid statudol. Os ydych chi'n llwyddiannus, cewch ddiweddarau eich gwybodaeth ar unrhyw adeg.

Rydym yn deall nad yw pawb am ddarparu'r wybodaeth hon ac i'r rheini, mae opsiwn ar gyfer '**ddim am ddweud**'.

Rydym yn cadw'r rhan hon o'r ddogfen ar wahân i weddill y ffurflen gais. Byddwn yn trin y wybodaeth rydych chi'n ei rhoi i ni yn gwbl gyfrinachol ac ni fydd y wybodaeth ganlynol ar gael i aelodau'r panel ddeddfol.

Mae'r ffurflen fonitro hon wedi'i llunio i ystyried canllawiau a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Mae'r dull hwn yn caniatáu cysondeb ac yn ein galluogi i gymharu ein data gyda ffynonellau eraill.

---

Enw:

Cod Post:

Rhyw:

Pe bai'n well gennych chi ddefnyddio eich term eich hun, nodwch hwnnw yma:

Hunaniaeth o ran rhywedd:

Mae traws yn derm ambarél ar gyfer pobl y mae eu hunaniaeth o ran rhywedd yn wahanol mewn rhai ffyrdd i'w rhywedd adeg eu geni. O ddefnyddio'r diffiniad hwn, **ydych chi'n adnabod eich hun fel person traws nawr neu ydych chi wedi gwneud hynny erioed?**

---

## Hunaniaeth Genedlaethol

Sut fydddech chi'n disgrifio eich hunaniaeth genedlaethol?

(Ticiwch bob un sy'n gymwys)

Cymro/Cymraes  Sais/Saesnes  Albanwr/Albanes  Gwyddel/Gwyddeles o Ogledd Iwerddon  Prydeiniwr/Prydeinwraig

Arall, disgrifiwch yma:

Ddim am ddweud

---

## Grŵp Ethnig

Sut fydddech chi'n disgrifio eich grŵp ethnig?

(Dewiswch un adran, yna ticiwch y bocs sy'n disgrifio eich grŵp neu gefndir ethnig orau)

## Gwyn

Cymro/Cymraes  Sais/Saesnes  Albanwr/Albanes  Gwyddel/Gwyddeles o Ogledd Iwerddon  Prydeiniwr/Prydeinwraig  Gwyddel/Gwyddeles  Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig

Unrhyw gefndir Gwyn arall, disgrifiwch:

## Grwpiau Ethnig Cymysg / Lluosog

Gwyn a Du Caribiaidd  Gwyn a Du Affricanaidd,  Gwyn ac Asiaidd,

Unrhyw gefndir ethnig cymysg / lluosog arall, disgrifiwch:

## Asiaidd neu Asiaidd Brydeinig

Indiaidd  Pacistanaidd,  Bangladeshaid,  Tsieinaidd,

Unrhyw gefndir Asiaidd arall, disgrifiwch:

## Du, Affricanaidd, Caribiaidd neu Ddu Prydeinig

Affricanaidd Caribiaidd

Unrhyw gefndir Du / Affricanaidd / Caribiaidd arall, disgrifiwch:

## Grŵp Ethnig arall

Arabaidd

Unrhyw grŵp ethnig arall, disgrifiwch:

---

## Cyfeiriadedd Rhywiol

Beth yw eich cyfeiriadedd rhywiol?

Os arall, manylwch:

---

## Oed

Nodwch eich grŵp oedran:

---

## Anabledd

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn diffinio anabledd fel nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith negyddol 'sylweddol' neu 'hirdymor' ar eich gallu i wneud gweithgareddau o ddydd i ddydd arferol.

Gan ddefnyddio'r diffiniad hwn, ydych chi'n ystyried bod gennych chi anabledd?

Ticiwch bob un sy'n gymwys

Anabledd dysgu

Cyflwr meddygol hirdymor

Cyflwr iechyd meddwl

Anabledd corfforol

Nam ar y synhwyrau

Os arall, nodwch:



---

## Creddau crefyddol

I ba un o'r creddyddau neu greddau canlynol ydych chi'n perthyn ar hyn o bryd?

Unrhyw greffydd / cred arall, disgrifiwch:

---

## Gwneud cais am swydd gyda'r Gyd-ysgrifenyddiaeth

### Y Broses Ymgeisio

Bydd y Disgrifiad Swydd, Manyleb Person a'r Hysbyseb Swydd yn nodi'r cymwyseddau craidd a'r ymddygiad a'r meini prawf swydd hollbwysig a gwybodaeth berthnasol arall. Er enghraifft, efallai y bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus fod yn barod i deithio neu weithio i batrymau oriau penodol. Ond rhoddir ystyriaeth i'r ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010.

Cyn i chi wneud eich cais, dylech ddarllen yr Hysbyseb Swydd, Disgrifiad Swydd a Manyleb Person yn ofalus a sicrhau y gallwch chi ddarparu tystiolaeth ddigonol o'r ymddygiadau cymhwysedd allweddol a'r meini prawf penodol ar gyfer y swydd. Mae'n syniad da nodi na fydd unrhyw un y mae'r panel yn penderfynu na fydd yn gallu gwneud hynny yn mynd ymlaen i gyfweiliad.

Dim ond ymgeiswyr a bennir yn gymwys yn erbyn pob un o'r meini prawf hanfodol (sef y meini prawf gofynnol ar gyfer y swydd at ddiben y cynllun Dau Dic) all fynd ymlaen y tu hwnt i'r cyfnod sifftio. Os ydych chi'n gwneud cais am fwy nag un swydd, bydd angen i chi lenwi ffurflen ar wahân ar gyfer pob un, wedi'u teilwra i adlewyrchu'r ymddygiadau cymhwysedd allweddol a'r meini prawf penodol i'r swydd sy'n ofynnol ar gyfer pob un.

### Y Dystiolaeth

Mae'r ddogfen hon yn darparu'r wybodaeth allweddol a fydd yn pennu a gewch eich gwahodd i gyfweiliad ai peidio i raddau helaeth.

### Adran 1 – Meini Prawf Penodol i'r Swydd

Fel uchod, dylech nodi sut rydych chi'n bodloni unrhyw feini prawf a restrir yn y disgrifiad swydd drwy ddefnyddio profiad, gwybodaeth a chyflawniadau.

### Adran 2 - Cyflawniadau yn erbyn y Cymwyseddau Craidd

Mae'r Llyfryn Tystiolaeth yn ei gwneud yn ofynnol i chi ddarparu hunanasesiad yn erbyn y cymwyseddau allweddol a'r ymddygiadau penodol a nodir yn y Fanyleb Swydd a Pherson. Bydd y panel yn chwilio am dystiolaeth eich bod yn gallu bodloni'r rhain ar y lefel gymhwysedd briodol.

Gall y Mathau o Gyflawni i'w hystyried wrth lunio ateb gynnwys prosiectau arbennig rydych chi wedi'u cyflawni'n bersonol, neu ddiwyddiadau unigol penodol, neu

ganlyniadau ymdrech barhaus drios gyfnod. Dylai'r cyflawniadau fod yn rhai lle'r ydych wedi buddsoddi amser ac ymdrech bersonol a gallant ddod o unrhyw ffynhonnell, nid o'r gweithle yn unig, os gallwch ddangos yn glir eu bod yn bodloni'r cymhwysedd a'r ymddygiadau gofynnol.

Dylai disgrifiad da o gyflawniad fod yn benodol i'r cymhwysedd craidd a'r ymddygiadau gofynnol. Dylai nodi natur y dasg a'r hyn roeddech chi am ei gyflawni ac yna egluro beth wnaethoch chi a pham.

Ceisiwch nodi'r canlyniadau a'r manteision a rhoi amserlen fras a dyddiad, ond cofiwch osgoi acronymau a allai fod yn anghyfarwydd i'r panel.

Un ffordd o ateb y cwestiynau cymhwysedd yw ystyried y dull canlynol (dull *Star: Situation, Task, Action a Results*):

**Sefyllfa** – Disgrifiwch yn gryno ym mha sefyllfa roeddech chi ar y pryd, e.e. roeddwn i'n gweithio mewn tîm gwasanaeth rheng flaen flaen prysur mewn banc

**Tasg** - Beth oedd yn rhaid i chi ei wneud ar yr achlysur penodol hwn, e.e. ar yr achlysur hwn roedd yn rhaid i mi ddelio â chwsmer gofidus iawn oedd â phroblem gyda'i chyfrif banc

**Gweithredu** - Disgrifiwch mor fanwl â phosibl beth wnaethoch chi, pa gamau a gymerwyd

**Canlyniadau** - Disgrifiwch ganlyniad eich gweithredu yn y pen draw, wnaethoch chi gyflawni'ch tasg, ac a oedd y cwsmer yn fodlon.

Ar ôl i chi benderfynu pa dystiolaeth rydych chi am ei dyfynnu mae'n rhaid i chi ei strwythuro i sicrhau ei bod yn llifo mewn ffordd glir a rhesymegol. Dylech sicrhau ei bod yn amlwg beth wnaethoch chi, y rhesymau dros weithredu, beth ddigwyddodd, yr hyn a ystyriwyd a'r canlyniad. Peidiwch byth â rhagdybio bod eich tystiolaeth yn amlwg pan ddaw'n fater o fodloni'r maen prawf. Ceisiwch osgoi datganiadau diddim a damcaniaethol. Peidiwch â bod ofn gwerthu eich hun cyn belled â'i fod yn berthnasol a chywir.

### **Cofiwch beidio:**

- Cyffredinoli (“Rydw i wastad yn gwrtais gyda chwsmeriaid”)
- Disgrifiadau swydd (“Mae fy swydd/rôl yn ymwneud â.....”)
- Prosesau (“Yn gyntaf rydw i'n cofnodi manylion y cwsmer ar y cyfrifiadur”)
- Honiadau (“Mae'n bwysig delio â chwynion ar unwaith”)
- Damcaniaethau (“Byddwn yn delio â'r gŵyn drwy....”)
- Disgrifiadau goddefol (“Galwyd cyfarfod.....”)
- Datganiadau heb berchnogaeth bersonol (“Fe wnaethom ni benderfynu mabwysiadu dewis.....”)
- Aralleirio'r meini prawf (“Fe wnes i ddangos doethineb a diplomyddiaeth”)

- Tystiolaeth amhenodol (“Pan dderbyniais hyn, roeddwn i’n bwriadu...”)
- Enghreifftiau o’r dyfodol - dylai tystiolaeth eisoes fod wedi digwydd ac felly dylai’r disgrifiad fod yn y gorffennol.